## SWYDD DDISGRIFIAD

**Teitl y Swydd:** **Dylunydd Cyfryngau Digidol / Animeiddiwr Iau (Interniaeth â Thâl)**

**Oriau a lleoliad:** 21 awr yr wythnos (rhaid bod yn hyblyg) yn hapus i deithio (Caerdydd/Cymru)

**Graddfa Gyflog:** Graddfa Dechnegol / Gweinyddol ProMo
**£23680** (pro-rata)

**Gwyliau a buddiannau:** 23 diwrnod (25 diwrnod o fis Ebrill 2024) y flwyddyn, yn codi i 27 ar ôl 2 flynedd a 30 diwrnod ar ôl cwblhau 5 mlynedd o wasanaeth (pro-rata

Wythnos waith 21+ awr

Gwyliau banc

Gweithio hybrid

Hyd at 4 wythnos o weithio i ffwrdd o'ch lleoliad gwaith arferol yng Nghymru

Cynllun pensiwn - hyd at 6% cyfraniad cyflogwr

Cynllun beicio

**Cyfnod prawf:** 2 Fis

**Hyd y cytundeb:** Cytundeb Cyfnod Penodol o 6 mis

**Yn atebol i:** **Rheolwr Cynhyrchu Cyfryngau**

**Gweledigaeth ProMo Cymru**

Mae ProMo Cymru yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc a chymunedau yn wybodus, yn cyfrannu, yn gysylltiedig, ac yn cael eu clywed.

**Ein Dull o Weithio**

Mae ProMo yn gweithio'n gydweithiol i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol. Rydym yn cefnogi'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau drwy ddigidol a chynhyrchiad cyfryngau, cyfathrebu, eiriolaeth, ac ymgysylltiad diwylliannol. Mae dros 25 mlynedd o brofiad yn cyflawni prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol yn cyfarwyddo ein gwaith. Rydym yn rhannu'r wybodaeth yma gyda hyfforddiant ac ymgynghoriaeth, yn creu partneriaethau hir dymor sydd yn buddio pobl a sefydliadau.

Mae ProMo yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol; mae'r holl elw yn cael ei fuddsoddi'n ôl i mewn i'n prosiectau cymunedol.

**PRIF BWRPAS Y SWYDD**

Mae ein Tîm Cynhyrchu Cyfryngau yn chwilio am **Ddylunydd Cyfryngau Digidol / Animeiddiwr Iau** sydd yn frwdfrydig am gyfryngau a gyda phrofiad a hyder i weithio ar sawl prosiect cyfryngau ar yr un pryd mewn amgylchedd cyflym.

Mae'r tîm cyfryngau yn cynhyrchu fideos, animeiddiadau, podlediadau, brandio, dylunio graffeg a mwy. Rydym yn cyd-gynhyrchu'r mwyafrif o'n gwaith gyda'n cleientiaid a/neu ein cynulleidfa darged. Mae rhai enghreifftiau o'n gwaith yn cynnwys cynhyrchu fideos cyfarwyddiadol ar gyfer Pecyn Profi Iechyd Rhywiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyd-gynhyrchu animeiddiad gyda chriw o ofalwyr ifanc o YMCA Abertawe. Addysgwyd nhw ar y gwahanol gamau o gynhyrchu animeiddiad, fel creu bwrdd stori, sgriptio, a throslais, a'u cefnogi trwy'r broses greadigol.

Manylion pellach am ProMo Cymru ar [www.promo.cymru](http://www.promo.cymru)

**Brîff y Prosiect**

Dyma gyfle cyffrous i ymuno â'n tîm cynhyrchu cyfryngau ar interniaeth â thal cyfnod byr, i'n cefnogi i greu animeiddiadau, dyluniadau graffeg, a fideos. Mae hwn yn gyfle gwych i dderbyn arweiniad arbenigol ac i ennill profiad i helpu gyda'ch gyrfa.

Byddech yn cael eich tasgu gyda:

- Creu dyluniadau cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau wedi'u hargraffu, gydag arweiniad ein Dylunwyr Graffeg
- Gweithio gyda'r tîm i gynhyrchu cyfryngau: gan gynnwys helpu yn y cyfnod cyn-gynhyrchu, mynychu sesiynau ffilmio, sesiynau recordio llais, golygu ffilm gydag arweiniad yn ogystal â thynnu a golygu lluniau
- Gweithio gyda'r tîm i gynhyrchu graffeg symud ac animeiddiadau 2D (byddai'n fonws pe bai gennych brofiad animeiddio 3D)
- Helpu mewn gweithdai, wyneb i wyneb ac ar-lein
- Dilyn canllawiau dylunio, a chyfyngiadau technegol a chyllidebol eraill
- Gweithio gyda'r tîm a chleientiaid i gyflawni prosiectau ar amser
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddaraf y diwydiant creadigol

Yn ychwanegol i'r dyletswyddau a chyfrifoldebau uchod, bydd disgwyl i'r person yn y swydd i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a thasgau rhesymol eraill yn ôl y gofyn i sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei ganlyniadau a'i amcanion yn llwyddiannus.

**Byddem wrth ein boddau yn clywed gennych chi os:**

- Mae gennych chi brofiad neu ddiddordeb yn y Diwydiant Creadigol, Cyfryngau a Dyluniad Graffeg
- Mae gennych chi brofiad yn defnyddio Adobe Creative Suite, Canva, a thebyg
- Mae gennych chi brofiad cyfrifiadurol ymarferol sydd yn cynnwys dylunio graffeg, cynhyrchu fideo, ac animeiddiad
- Rydych chi'n angerddol am ddefnyddio cyfryngau i gysylltu gyda phobl a chymunedau
- Rydych chi'n ddibynadwy, yn gyfrifol, gydag agwedd bositif
- Rydych yn gyffrous i weithio mewn amgylchedd prysur ble mae pob diwrnod yn wahanol
- Rydych chi'n awyddus i ddysgu a datblygu eich sgiliau wrth gael profiad yn un o'r mentrau cymdeithasol sydd yn tyfu cyflymaf yng Nghymru
- Rydych chi'n hyblyg i deithio

**Sut i wneud cais:**

E-bostiwch eich ffurflen gais wedi'i lenwi (isod) i people@promo.cymru

**Dyddiad cau:**

Dydd Mercher, 23ain Chwefror 2024, 5yp

**MANYLION Y PERSON A PHROFIAD:**

| Gofyniad | Hanfodol | Dymunol | Sut Canfyddir / Asesir |
|---|---|---|---|
| Addysg/ Cymwysterau: | Gradd baglor mewn dylunio graffeg, graffeg symud, celfyddydau cain, celfyddydau amlgyfrwng, neu unrhyw radd berthnasol. | Yn gweithio tuag at radd baglor mewn dylunio graffeg, graffeg symud, celfyddydau cain, celfyddydau amlgyfrwng, neu unrhyw radd berthnasol. | Ffurflen gais |
| Sgiliau/Gwybodaeth: | Gwybodaeth ymarferol am ddylunio graffeg gyfrifiadurol sydd yn cynnwys dylunio cynhyrchiad fideo ac animeiddiad.<br><br>Lefel uchel o lythrennedd TG gan gynnwys Adobe Creative Suite neu debyg.<br><br>Sgiliau trefnu, cynllunio ac aml-dasgio da.<br><br>Sgiliau cryf wrth feddwl yn | Dealltwriaeth o sut i ddylunio deunyddiau marchnata ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd targed yn defnyddio'r we, cyfryngau cymdeithasol, e-bost a sianeli digidol fel arall i farchnata a chyfathrebu.<br><br>Yn chwilfrydig am y dechnoleg, y tueddiadau a'r offer digidol diweddaraf. | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | greadigol a datrys problemau. | Storïwr creadigol sydd yn gallu cyflwyno'n dda. | |
| Nodweddion Personol: | Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br><br>Yn angerddol am ddefnyddio technoleg a digidol i gysylltu gyda phobl ifanc a chymunedau yng Nghymru.<br><br>Y gallu i weithio'n annibynnol a chydweithio gyda thîm.<br><br>Sylw i fanylder a sgiliau rheoli amser a chynllunio rhagorol. | | Cyfweliad |
| Gofynion eraill: | Parodrwydd i weithio i a chynnal gwerthoedd, ethos a diwylliant ProMo Cymru.<br><br>Parodrwydd i deithio ledled Cymru pan fo angen.<br><br>Parodrwydd i weithio oriau hyblyg yn unol ag anghenion y busnes. | Trwydded yrru gyda thrafnidiaeth eich hun.<br><br>Siarad Cymraeg. | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd angen gwiriad DBS uwch. | | |

**Gall y swydd ddisgrifiad yma fod yn destun i adolygiad a newidiadau i gynnwys y fath ddyletswyddau a chyfrifoldebau penderfynir mewn ymgynghoriad â'r un sydd yn dal y swydd. Nid yw'n fwriad iddo fod yn anhyblyg, ond dylid ei ystyried fel darparu fframwaith mae'r unigolyn yn gweithio iddo.**

### DIWEDD ### ]